Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 13)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

6. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   **a)** Diweddariad cyfnodol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 14 - 22)

   **b)** Diweddariad ar Gyllideb 2016/17 (ar 30 Medi 2016) (Tudalennau 23 - 27)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**7. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:**

**a)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 28 - 29)

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Llun, 23 Ionawr 2017 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 31 Hydref 2016, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, David Griffiths, Bernie McCann, Dilwyn Morgan, Neville Phillips a Gethin Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Ann Griffiths (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a'r Prif Gwnstabl Mark Polin (Heddlu Gogledd Cymru). |

20. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Glenys Diskin a Wil Hughes.

21. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

22. **MATERION BRYS**

Dim.

23. **AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG**

Dywedodd y Swyddog Arweiniol / Ymgynghorydd Cyfreithiol i Banel yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru wrth yr aelodau am y broses recriwtio ddiweddar ar gyfer dwy swydd Aelod Annibynnol Cyfetholedig.

Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd wedi hysbysebu'r swyddi ym mis Medi 2016, gan y byddai cyfnodau'r ddau aelod presennol yn y swydd yn dod i ben ar 31 Hydref 2016.

Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd wedi sefydlu Panel Penodi a oedd wedi cyfweld â chwe ymgeisydd ar 10 Hydref 2016; nodwyd nad oedd Mr Tim. Rhodes (un o'r aelodau annibynnol cyfetholedig presennol) wedi ail-gymhwyso, gan y byddai'n symud allan o ardal yr Heddlu.

Yn dilyn y cyfweliadau, teimlai'r Panel Penodi bod tri ymgeisydd neilltuol ac roeddent yn credu'n bendant y byddai'r PCP ac, yn sgil hynny, Gogledd Cymru yn elwa ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y tri ymgeisydd.

Felly, gofynnodd y Panel Penodiadau i'r Swyddog Arweiniol / Ymgynghorydd Cyfreithiol ofyn am gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am benderfyniad gan Banel yr Heddlu a Throsedd i gyfethol un aelod annibynnol ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd Swyddogion wedi gallu gofyn am gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref cyn y cyfarfod, felly gofynnwyd i'r Panel gymeradwyo cynyddu nifer yr aelodau annibynnol cyfetholedig o ddau i dri, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

Gan fod Trefniadau'r Panel eisoes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dau aelod annibynnol cyfetholedig, argymhellwyd y dylid penodi Pat Astbury a Matthew Forbes ar unwaith a bod William John Williams yn cael ei benodi'n drydydd aelod cyfetholedig, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

Dywedodd Cadeirydd y Panel Penodiadau (Cynghorydd Julie Fallon) bod pob un o'r chwe ymgeisydd o safon uchel iawn, fodd bynnag, teimlai'r Panel y byddai'r PCP yn elwa o sgiliau'r tri ymgeisydd arfaethedig.

Cefnogodd y Panel argymhellion y Panel Penodi a gwnaethant hefyd ail-gadarnhau Pat Astbury fel Is-Gadeirydd y Panel.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cyfethol aelod annibynnol ychwanegol gan gynyddu nifer yr aelodau annibynnol cyfetholedig o ddau i dri, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.**

**(b) Dylid penodi'r Aelodau Annibynnol Cyfetholedig ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar unwaith:**

- **Pat Astbury**
- **Matthew Forbes**

**(c) Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol bod William John Williams yn cael ei benodi fel y trydydd aelod annibynnol cyfetholedig.**

**(d) Ail-gadarnhau Pat Astbury yn Is-gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.10 pm)

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 31 Hydref 2016, am 2.15 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., David Griffiths, Bernie McCann, Dilwyn Morgan, Neville Phillips a Gethin Williams |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Asbury a Matthew Forbes |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Ann Griffiths (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a'r Prif Gwnstabl Mark Polin (Heddlu Gogledd Cymru). |

24. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Glenys Diskin a Wil Hughes.

25. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn gweithio fel Swyddog Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

26. **MATERION BRYS**

Dim.

27. **CYFLWYNIAD GAN Y PRIF GWNSTABL, HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Gwahoddwyd Mr Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru (HGC) i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) i roi diweddariad ar gyflawniad blaenoriaethau ac amcanion Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Darparodd Prif Gwnstabl Polin gyflwyniad i'r Panel, oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

Gweithio mewn partneriaethau effeithiol:

- Cydweithio â phartneriaid i weithredu Cynllun Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) rhanbarthol a datblygu gwaith Tîm Onyx, yn enwedig mewn perthynas â diogelu a chudd-wybodaeth.
- Datblygu ymhellach ddealltwriaeth yr Heddlu o'r gofynion a gysylltir â salwch meddwl er mwyn gwella ei ymateb, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
  - Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen cenedlaethol i gyflawni gofynion y Concordat Iechyd Meddwl, sef cytundeb cenedlaethol rhwng gwasanaethau ac asiantaethau sy'n gofalu am ac yn cefnogi pobl mewn argyfwng.
  - Sefydlwyd peilot Panel Rheoli Risg a Diamddiffynedd yn Ynys Môn, fydd yn cael ei werthuso; bydd gwybodaeth bellach am y peilot yn cael ei ddosbarthu i Gadeirydd y Panel (Y Cynghorydd Julie Fallon).
  - Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cynnal asesiadau strategol.
- Cytuno a bwrw ymlaen â chyfleoedd cydweithredol gyda Heddluoedd Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr a gwasanaethau brys eraill y rhanbarth, gan gynnwys BIPBC.

Atal Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:

- Ceisio cynnal lefelau uchel o gydymffurfedd â Safonau Cofnodi Troseddau'r Swyddfa Gartref.
  - Er bod graddau cydymffurfio'r Heddlu â safonau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn 94%, oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi, byddai angen i'r Heddlu fuddsoddi hyd at £250k er mwyn bodloni safonau cofnodi'r dyfodol.
- Gweithredu Adolygiad Plismona'r Gymdogaeth
  - Timau Cymdogaethau Diogelach lleol o Sarsiantiaid, Cwnstabliaid, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a Chwnstabliaid Arbennig, a gefnogir gan 'Unedau Diogelwch Cymunedol' Ardal sy'n ymgorffori partneriaid.
- PCSOs – fel yr adroddwyd yn flaenorol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, bydd nifer y PCSOs yn gostwng o 258 i 220 oherwydd yr angen i ganfod arbedion; dosbarthodd y Prif Gwnstabl y nifer o PCSOs ar draws ardal yr Heddlu.
- Cynyddu effeithiolrwydd gweithredol yr adnoddau cynyddol a gafwyd drwy'r rhaglen Dinasyddion mewn Plismona.
  - Cafodd 20 Cwnstabl Arbennig arall eu recriwtio a bu iddynt gychwyn eu hyfforddiant ym mis Medi 2016.
  - Roedd Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu wedi gweithio dros 3,573 o oriau hyd yma yn 2016.
  - Mae'r Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol yn cael ei ddatblygu ymhellach, gyda Rheolwr Gwirfoddolwyr wedi'i benodi ym mis Gorffennaf 2016.
  - Bydd 3 Uned Cadetiaid arall yn cael eu sefydlu ar draws yr Heddlu, gyda 60 yn fwy o Gadetiaid Heddlu gwirfoddol.

- Ystadegau Troseddu Cofnodedig
  - Mae Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn y 15fed safle yn genedlaethol, gyda 55.7 o droseddau cofnodedig i bob 1000 o'r boblogaeth.
    Mae'r Heddlu'n parhau i fod yn 2il drwy Gymru ac yn dal yn well na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 67.8.
  - Mae Gogledd Cymru'n dangos cynnydd o 6.1% ar draws y categorïau troseddau cofnodedig yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2016. Ond mae cyfartaledd yr Heddlu'n dal i fod yn well na chyfartaledd Cymru a Lloegr, sef cynnydd o 8.7%.

Darparu Ymateb Priodol:

- Cyflawni arbedion arfaethedig o £7.3m dros y 4 blynedd nesaf.
- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Effeithlonrwydd.
  - Sefydlwyd tîm penodedig i amlygu'r gofynion y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu yng Ngogledd Cymru a gwneud argymhellion i wella effeithlonrwydd trwy leihau'r galw am y gwasanaeth a sicrhau bod gan y sefydliad strwythurau a systemau effeithiol, o ystyried bod y cyllidebau'n lleihau.
  - Defnyddiwyd dull wedi'i seilio ar dystiolaeth o gynnal yr adolygiad, a amlygodd themâu/galluogwyr i'w defnyddio i gychwyn datblygu argymhellion
  - Amlygwyd 43 o argymhellion, a oedd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, gan gynnwys y modd y mae'r Heddlu'n ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â iechyd meddwl, pryder am ddiogelwch, pobl ar goll, helpu asiantaethau eraill, dwyn o siopau, marwolaethau sydyn, prosesau adleoli, datrys problemau, dyrannu adnoddau a materion polisi.
- Datblygu ymhellach y rhaglen waith bresennol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.
- Canlyniadau arolwg CSE:
  - Roedd nifer y bobl oedd yn nodi bod ganddynt ffydd yn yr heddlu wedi gwella o 78.2% yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2015 i 82.6% yn y 12 mis hyd at Fawrth 2016.
  - Dangosodd canlyniadau'r arolwg hefyd welliant yn y modd y mae'r Heddlu'n trin pobl â pharch.
- Cyflwyno technolegau newydd yng Nghanolfan Gyfathrebu HGC er mwyn gwella hygyrchedd ac effeithlonrwydd.
- Y rhif cenedlaethol pan nad yw'n argyfwng, 101:
  - Ymddengys fod y rhif 101 yn aml yn cael ei gamddehongli fel rhif 'brys' arall; dosbarthodd y Prif Gwnstabl y llif galwadau 101 a'r amseroedd.
  - Roedd perfformiad HGC o ran galwadau wedi'u gadael – pan fo unigolion yn dewis rhoi'r ffôn i lawr cyn i'r alwad gael ei hateb – yn gymaradwy â'r heddluoedd eraill. Dangosodd data mwy diweddar bod y gyfradd o alwadau wedi'u gadael wedi gostwng ymhellach.
  - Roedd systemau TG newydd yn cael eu cyflwyno yn Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, fyddai'n helpu i ddelio â galwadau ac anfon cymorth.

- Roedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd i ateb galwadau 101 yn gyson is na 18 eiliad.
- Roedd yr amser aros hiraf bob tro’n llai na 7 munud ar gyfer y rhif 101 – mae’n amlwg fod hyn i’w weld yn dderbyniol ar gyfer digwyddiad nad yw’n argyfwng, ond cydnabuwyd bod y ffaith bod 101 yn cael ei ystyried yn rif argyfwng arall wedi arwain at bryderon gan y cyhoedd.

- Roedd THRIVE yn offeryn rheoli risg fyddai’n galluogi Gweithredwyr Cyfathrebu i bennu pa mor ddiamddiffyn oedd y galwr ar y pwynt cyswllt cyntaf, gan sicrhau bod yr ymateb yn cael ei raddio’n briodol.
- Uned Ymateb a Reolir (MRU) – cododd y cysyniad o’r Adolygiad o Effeithlonrwydd, gyda pheilot yn cael ei gynnal yn yr ardal Ganolog fis Mehefin 2016. Y brif nod oedd adolygu achosion amser araf a’u datrys, lle bo’n bosib, heb anfon Swyddog na PCSO. Yn y mis cyntaf, adolygodd yr Uned 55% o’r holl achosion amser araf, gan lwyddo i ddelio â 45% yn eu cyfanrwydd.
- Cyflwyno clinigwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) i’r Ganolfan Gyfathrebu er mwyn gwella’r broses o benderfynu pryd y dylai WAST alw am gymorth yr heddlu (ac i’r gwrthwyneb) a lleihau achosion o swyddogion yr heddlu’n mynd i achosion lle nad oedd eu hangen.

Lleihau Niwed a’r Risg o Niwed:

- Gyrru gwaith y tîm POLIT sydd newydd ei sefydlu yn ei flaen ar y cyd ag adnoddau Seiberdroseddu a Throseddau Uwch-dechnoleg.
- Parhau i gynnal gallu HGC i ymateb i fygythiadau o fewn y Gofyniad Plismona Strategol, yn enwedig o ran terfysgaeth.
- Cydbwyso troseddau mynych â heriau darparu gwasanaethau amddiffyn er mwyn delio â seiberdroseddu, CSE, troseddwyr risg uchel, cam-drin domestig, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth modern, troseddau difrifol a chyfundrefnol a gwrthderfysgaeth.
- Cyfarwyddyd a Mesurau Cyflawni HMIC
- Troseddau rhywiol – bu cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd o 153 i 314 yn y flwyddyn hyd yma, yn dilyn effaith ymchwiliad i droseddau cyfundrefnol.

Arolygiadau HMIC:

- Cynhaliodd y HMIC arolygiadau dan y themâu canlynol:
  - Effeithlonrwydd - da
  - Cyfreithlondeb – adroddiad drafft wrthi’n cael ei adolygu
  - Arweinyddiaeth – aros am ganlyniad terfynol yr arolygiad
  - Effeithiolrwydd – arolygiad i’w gynnal cyn bo hir
- Roedd gan y Prif Gwnstabl bryderon am y gyfundrefn arolygu; roedd perygl y byddai mwy o adnoddau’n cael eu gwario ar baratoi ar gyfer yr arolygiadau ac ymateb iddynt nag ar gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd.

  Roedd y gyfundrefn arolygu yn dibynnu’n fawr ar brosesau ac roedd yr argymhellion oedd yn codi o’r arolygiadau yn aml heb eu costio ac yn gyffredinol. O ystyried baich y gyfundrefn, bu’n rhaid sefydlu

Tîm Cyswllt i baratoi ar gyfer arolygiadau, oedd yn gost ychwanegol i'r Heddlu.

Heriau sy'n ein Hwynebu:

- Cyllid:
  Cynigion a phwysau twf; dyrannu adnoddau ar sail tystiolaeth; adolygiad o'r fformiwla gyllido; diwygio cenedlaethol a 'Galluoedd Arbennig'; safle praesept; arweinyddiaeth; lles y gweithlu; partneriaid a strwythurau partneriaeth; trafodaethau anodd, e.e. HMIC; gallu o ran pwysau gweithredol; newid a'r gallu i gyflawni; a chydweithio a rhwydweithiau.

Diolchodd y Panel i'r Prif Gwnstabl Polin am gyflwyniad llawn gwybodaeth ac aeth ymlaen i drafod y materion canlynol:

- Gofynnwyd i'r Cynghorydd Brian Blakeley godi mater gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) ar ran Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r problemau a achosir gan ddiffyg cysondeb o ran staff gwasanaeth yr heddlu mewn cymunedau ledled y Sir, a cholli'r PCSOs.
  Gwahoddwyd y PCC i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol a nododd y Prif Gwnstabl y byddai'n fodlon mynychu'r cyfarfod os hoffai'r PCC iddo wneud hynny.
- Cododd y Cynghorydd Blakeley bryderon hefyd ynglŷn â phlismona yn Y Rhyl; cytunodd y Prif Gwnstabl i drafod manylion pryderon y Cynghorydd y tu allan i'r cyfarfod.
- Effaith y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Tîm Amethyst – cadarnhaodd y Prif Gwnstabl y rhoddwyd adnoddau ychwanegol i'r Tîm a bod yr amserlenni atgyfeirio'n cael eu rheoli'n unol â Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- Yr angen am gysondeb yn yr ymagwedd tuag at Dimau Cymdogaeth ar draws ardal yr Heddlu.
  Adroddodd y Prif Gwnstabl mai un o brif nodau Adolygiad Plismona'r Cymdogaeth oedd sicrhau mwy o gysondeb o ran plismona cymunedol.
- Nifer y PCSOs, yn enwedig yn ardaloedd Wrecsam.
  Adroddodd y Cynghorydd David Griffiths fod Cyngor Sir Wrecsam wedi talu am fwy o PCSOs yn ardal Wrecsam, ond canfyddiad y cyhoedd oedd nad oedd yr ardal yn elwa ar PCSOs ychwanegol.

- Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Gwnstabl fod Wrecsam yn elwa ar fwy o PCSOs, oherwydd y cyllid ychwanegol, ond, fel y nodwyd yn gynharach yn y cyflwyniad, roedd cydbwyso plismona cymunedol â mynd i'r afael â throseddau mwy difrifol, megis CSE, yn her.
  Fel rhan o'r Adolygiad o Effeithlonrwydd, bydd yr Heddlu'n edrych tuag at bartneriaid i ymateb i ddigwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â phlismona. Yn ychwanegol, dylai cyflwyno'r MRU ar draws Ardal yr Heddlu a newidiadau i brosesau busnes gynyddu gallu a gwelededd.

- Bu i’r Panel gydnabod pryderon y Prif Gwnstabl mewn perthynas â goblygiadau arolygiadau a'r effaith ar blismona, gan fod Awdurdodau Lleol hefyd yn wynebu problemau tebyg gyda’u hamrywiol gyfundrefnau arolygu.
- Cyflwyno hyfforddiant CSE fesul cam i yrwyr tacsi trwyddedig/hurio preifat.
  Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd y cyntaf i gynnig yr hyfforddiant hwn, ond codwyd pryderon nad oedd hyn wedi digwydd drwy Ogledd Cymru gyfan.
  - Adroddodd y Prif Gwnstabl ei fod wedi gofyn am ddiweddariad ar gynnydd y Cynllun CSE Rhanbarthol, er mwyn cael tystiolaeth o bryderon.
- Cyfeiriwyd hefyd at faterion sy’n ymwneud â Pharc Caia, Wrecsam.
  - Bu i’r Prif Gwnstabl gydnabod y rhoddwyd cryn dipyn o adnoddau i’r ardal, ond nad oedd yr heriau’n diflannu, yn enwedig mewn perthynas â’r nifer o achosion o danau bwriadol.
    Roedd angen ystyried sut i sicrhau cudd-wybodaeth briodol. Awgrymodd y Cynghorydd Bernie McCann bod angen gwell cysylltiadau cyfathrebu rhwng y cyhoedd a HGC; bydd y Prif Gwnstabl yn adrodd am y sylwadau hyn wrth ei dîm.
- Fel rhan o’r Adolygiad o Effeithlonrwydd, fyddai nifer yr Uwch Swyddogion yn cael ei adolygu?
  - Nododd y Prif Gwnstabl fod yr Heddlu, hyd yma, wedi gallu osgoi torri ar staff y rheng flaen, gan y gwnaed cryn dipyn o’r arbedion o linellau o’r gyllideb nad ydynt yn ymwneud â staffio.
    Roedd strwythurau Uwch Reolaeth hefyd wedi’u hadolygu, a swyddi wedi’u dileu yn unol â hynny. Teimlai’r Prif Gwnstabl fod ei Dîm Arweinyddiaeth mor fychan ag y gallai fod, ond y byddai’n parhau i gael ei adolygu.
- Anawsterau ymgysylltu â’r Bwrdd Iechyd.
  - Teimlai’r Prif Gwnstabl bod angen mwy o ymgysylltiad â’r Bwrdd Iechyd, yn enwedig am fod y Nadolig yn nesáu a bod angen sefydlu’r cynlluniau priodol.
    Yn ogystal, roedd pryderon o ran blaenoriaethau’r Bwrdd Iechyd, yn enwedig o ran iechyd meddwl.
- Hyfforddiant iechyd meddwl i Swyddogion
  - Adroddodd y Prif Gwnstabl bod y rhaglen hyfforddi bresennol yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau y gallai’r staff adnabod materion iechyd meddwl sy’n codi, a hynny o ran darparu gwasanaethau ac o fewn y gweithlu.

Holodd y Cadeirydd hefyd sut y byddai’r dyraniad adnoddau ar sail tystiolaeth yn cael ei weithredu. Mewn ymateb, cytunodd y Prif Gwnstabl i rannu’r dull gweithredu gyda’r Panel, pan fydd yn briodol gwneud hynny.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi’r cyflwyniad.**

**(b) Dosbarthu gwybodaeth bellach am beilot y Panel Rheoli Risg a Diamddiffynedd i Gadeirydd Panel yr Heddlu a Throsedd (Y Cynghorydd Julie Fallon).**

**(c) Rhannu'r dull o ddyrannu'r adnoddau ar sail tystiolaeth gyda Phanel yr Heddlu a Throsedd pan fydd yn briodol gwneud hynny.**

**(d) Y bydd y Prif Gwnstabl yn trafod y pryderon o ran plismona yn Y Rhyl â'r Cynghorydd Brian Blakeley.**

28. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2016 a 28 Gorffennaf 2016 i'w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 8 (27 Mehefin 2016) – Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) nad oedd wedi cydweithio ag Ann Griffiths (Dirprwy PCC) yn flaenorol a'u bod yn eu hadnabod ei gilydd yn wleidyddol, gan fod PCC a'r Dirprwy PCC ill dau'n Gynghorwyr.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2016 a 28 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad uchod.**

29. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau Annibynnol Cyfetholedig sydd newydd eu penodi i'r cyfarfod.

30. **DIWEDDARIAD CYFNODOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2016 a diwedd Medi 2016.

Canolbwyntiodd yr adroddiad ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn pedwar amcan y Cynllun Heddlu a Throsedd a'r mesurau a nodir yn y Cynllun.

Yn ogystal, cafwyd diweddariadau cyffredinol yn yr adroddiad mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymgysylltu a Chyfathrebu;
- Gwaith y Dirprwy PCC;
- Comisiynu;
- Y Gronfa Bartneriaeth Gymunedol;
- Hyder a Moeseg;
- Penderfyniadau allweddol a wnaed gan ragflaenydd y PCC rhwng 1 Mai 2016 ac 8 Awst 2016;
- Craffu yn Gyffredinol;
- Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol;
- Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar;
- Diweddariad HMIC; a
- Gohebiaeth.

Rhoddodd y PCC hefyd ddiweddariad llafar ar y gwaith y mae wedi'i wneud ers cyhoeddi ei adroddiad, oedd yn cynnwys y canlynol:

- Rheoleiddio Canabis er Defnydd Meddygol yn y DU – ysgrifennodd y PCC lythyr yn ddiweddar i gefnogi PCC Durham, Ron Hogg, oedd eisiau gweld canabis yn cael ei gyfreithloni er dibenion meddygol yn unig.
  - Amlygodd un o'r Aelodau Annibynnol Cyfetholedig (Pat Astbury) bwysigrwydd gosod rheolyddion priodol a byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r effeithiau ar bobl ifanc.
- Gwerth Cymdeithasol – roedd y PCC yn edrych ar y modd roedd yr Heddlu yn caffael gwasanaethau i sicrhau ei fod er budd yr economi lleol ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian, yn ogystal â chydymffurfio â rheoliadau caffael.
- Roedd y PCC a'r Prif Gwnstabl yn cynnal digwyddiadau ymgynghori gyda'r gymuned a sefydliadau cymunedol mewn perthynas â'u blaenoriaethau plismona.

Cafwyd diweddariad hefyd gan y dirprwy PCC ar y gwaith y mae wedi'i wneud yn ddiweddar, oedd yn cynnwys:

- Ymweld â'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ym Mae Colwyn a'r Ystafell Reoli yn Llanelwy.
- Mynychu'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod.
- Ysgrifennu papur ar effaith Brexit ar blismona.
- Mynychu cyfarfodydd mewn perthynas â'r Safonau Iaith Gymraeg newydd.
- Gwaith mewn perthynas â datblygiad y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, fydd yn cael ei rannu â'r Panel fis Rhagfyr 2016.

Diolchodd yr Aelodau i'r PCC a'r Dirprwy PCC am eu diweddariadau llawn gwybodaeth, ac aethant ymlaen i drafod y materion canlynol:

- Y bwriad i gau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Ngogledd Cymru a sut y byddai hyn yn effeithio ar waith yr heddlu.
  - Hysbysodd y PCC y Panel bod cyfarfodydd wedi'u trefnu i drafod goblygiadau cau'r llysoedd, gan y byddai'n effeithio ar gludiant ac adnoddau.
- Effaith adroddiad diweddar yn y newyddion oedd yn awgrymu nad oedd y Ddeddf Enillion Troseddau yn addas i'r diben a sut y gallai hyn effeithio ar y PCC a chyllido prosiectau cymunedol.
  - Nid oedd y PCC yn ymwybodol o'r adroddiad a nododd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Panel ar y mater.
- Cyfeiriwyd at adroddiad diweddar a gyhoeddwyd oedd yn amlygu cynnydd yn nifer yr ymosodiadau rhywiol honedig mewn ysgolion – gofynnodd y Dirprwy PCC i'r adroddiad gael ei anfon ymlaen iddi hi er gwybodaeth.
- Yr effaith y gallai blaenoriaethau'r PCC ei gael ar ansawdd darpariaeth yr heddlu.
  - Nododd y PCC ei bod yn fater o gael cydbwysedd priodol rhwng plismona cymunedol ac ymateb i droseddau mwy difrifol.

- Cwestiynodd y Panel gynlluniau'r PCC i ymgysylltu a chynnal gwaith partneriaeth â BIPBC, er mwyn delio â materion fel iechyd meddwl.
    - Rhannodd y PCC bryderon y Panel nad yw'r sefyllfa gyda BIPBC yn foddhaol, ond roedd enghreifftiau o gydweithio da mewn partneriaeth, megis y cynigion i sefydlu hwb cydgomisiynu ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.
      Yn ychwanegol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi cryn dipyn o gyllid yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ym Mae Colwyn i ddarparu gwasanaethau priodol.
    - Roedd y Dirprwy PCC hefyd yn rhan o amrywiol brosiectau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac yn gweithio ledled Cymru i gasglu gwybodaeth am y materion y mae heddluoedd yn eu hwynebu.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen am ymagwedd gyson tuag at ymgysylltu â'r gymuned, gan y teimlir mewn rhai rhannau o Ogledd Cymru bod diffyg ymgysylltiad, yn enwedig gyda'r Aelodau Etholedig.

Adroddodd y PCC ei fod ar hyn o bryd yn ceisio eglurder ar niferoedd y PCSOs yn Ardal yr Heddlu a'r model dyrannu adnoddau, nad yw'n unffurf ar draws Gogledd Cymru. Dylai Adolygiad Plismona'r Gymdogaeth oedd wrthi'n cael ei gynnal hefyd ddarparu ymagwedd gyson.

Adroddodd Prif Weithredwr yr OPCC bod adolygiad craffu hefyd yn cael ei gynnal i edrych ar Gynlluniau Cyfathrebu 3 o'r 6 sir yng Ngogledd Cymru. Bydd yr adolygiad yn edrych ar sut yr aethpwyd ar ôl materion a godwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Caiff adborth yr adolygiad craffu ei adrodd yn ôl i'r Panel yn y man.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymchwilio i/yn adolygu'r adroddiad diweddar yn y newyddion oedd yn awgrymu nad oedd y Ddeddf Enillion Trosedd yn addas i'r diben.**

**(c) Darparu adborth yn un o gyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd sydd i ddod ar yr adolygiad craffu o Gynlluniau Cyfathrebu'r Heddlu.**

31. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2016/17 (AR 31 GORFFENNAF 2016)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) ar gyllideb plismona Gogledd Cymru ar 31 Gorffennaf 2016.

Hysbyswyd y Panel bod y sefyllfa wedi newid ers diwedd Gorffennaf 2016 ac mai cyfanswm yr amcanestyniad at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant o £1.082m. Y rheswm am hyn oedd cynnydd mewn incwm yn sgil gwerthu cerbydau a llithriant yng ngwariant y rhaglen gyfalaf.

Hefyd, cyflwynwyd yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu'r praesept i'r Panel.

Cyfeiriwyd at y gorwariant ar y gyllideb TG, yr adroddwyd arno i'r Panel yn flaenorol. Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i ddod i ddeall y materion a chadarnhaodd y byddai newid y cyflenwr yn gwireddu'r arbedion gofynnol o £4m dros gyfnod y contract.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r adroddiad.**

32. **CRYNODEB O'R CWYNION SYDD WEDI DOD I LAW**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol adroddiad a ddarparodd grynodeb i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) o'r cwynion a ddaeth i law mewn perthynas â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) blaenorol (Winston Roddick CB QC) yn ystod ei amser yn y swydd, gan roi gwybod i'r Panel nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law mewn perthynas â'r PCC sydd newydd ei ethol, Arfon Jones, hyd at 31 Hydref 2016.

Roedd cyfanswm o 6 o gwynion cofnodadwy yn erbyn y PCC blaenorol wedi dod i law'r Panel yn ystod ei gyfnod yn y swydd, yr adroddwyd am bump ohonynt yn flaenorol i'r Panel ac oedd bellach wedi'u cau.

Cafodd y Panel Heddlu a Throsedd gŵyn pellach ar 13 Ionawr 2016, oedd yn ymwneud â sefyllfa cyflogaeth Prif Weithredwr blaenorol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (OPCC). Yn unol â Gweithdrefn Gwyno'r Panel, aeth y Swyddog Arweiniol ati i ddatrys y cwyn yn anffurfiol, ac fel rhan o'r broses hon, ceisiodd wybodaeth ac eglurhad pellach gan y PCC a'r OPCC. Roedd y Panel o'r farn bod ymddygiad y PCC wedi bod yn addas ac yn briodol o dan yr amgylchiadau. Ymchwiliodd Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru y mater ac ysgrifennodd at yr OPPC ar 18 Awst 2016 yn cadarnhau nad oedd yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach ynghylch y mater hwn (oni fyddai unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei ddwyn i'w sylw).

**PENDERFYNWYD-**
**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion a ddaeth i law.**

33. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AR GYFER PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (RhGD) Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am y flwyddyn i ddod.

Adroddwyd y gellid ychwanegu rhagor o bynciau i'r RhGD yn dilyn Diwrnod Datblygu'r Panel ym mis Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD-**
**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

34. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Bydd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael ei gynnal ddydd Llun 12 Rhagfyr 2016.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm)

# Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd
# 12 Rhagfyr 2016
## *Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru*

## Cyflwyniad

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod 1 Hydref i ddechrau Tachwedd 2016. Roedd cyfarfod blaenorol y Panel ar 31 Hydref yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Mehefin i ddiwedd mis Medi.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Rwyf yn craffu ar yr Heddlu trwy fesur ei berfformiad yn erbyn pedwar amcan y Cynllun Heddlu a Throsedd (y Cynllun) a'r mesurau a nodir yn y Cynllun. Y prif gyfrwng yr wyf am gyflawni'r swyddogaeth honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau Cynllun 2016/17 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016).

## Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd: Gweithio mewn partneriaethau effeithiol

*I ddwyn yr heddlu i gyfrif, byddaf yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*

• Lefel aildroseddu, gan gynnwys aildroseddwyr risg uchel o drais domestig;
• Gweithredu'r cynllun rhanbarthol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant;
• Gweithredu'r concordat iechyd meddwl Cymru gyfan;
• Datblygu a gweithredu Cynllun Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i gefnogi'r cynllun hwn.

Mae cydweithio mewn partneriaethau effeithiol yn helpu i gyflawni fy nhair blaenoriaeth arall, atal troseddu, darparu ymateb effeithiol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi ymatebion i fod yn fwy effeithiol a pharhaol yn eu budd i'r gymuned nag y byddent fel arall. Mae hefyd yn lleihau'r galw, a thrwy hynny'n cynyddu gallu staff rheng flaen o'r holl awdurdodau cyfrifol. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth a rhannu adnoddau lle bo angen i gyflawni nod cyffredin.

Bydd aelodau'r panel yn cofio bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal adolygiad effeithlonrwydd yn ddiweddar, a gwelwyd mai'r ddau alw uchaf ar yr Heddlu yw materion sy'n ymwneud ag ymholiadau ynghylch rhywun ar goll o'u cartref ac iechyd meddwl, ac efallai na fydd yr un o'r ddau yn cynnwys unrhyw droseddau. Dim ond mewn partneriaeth y gellir ymateb yn effeithiol i'r materion difrifol hyn. O ganlyniad, mae rhan o fy ngweithgareddau craffu yn cynnwys sefydlu sut mae'r Heddlu yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rwyf yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, y Byrddau Diogelu (ar gyfer plant ac oedolion) a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, i nodi ffyrdd o weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol yn y cyfnod ariannol heriol hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyflwyno canolbwynt comisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein gwasanaethau a gomisiynir, a bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen lle bo'r angen mwyaf.

Mae gweithrediad y concordat iechyd meddwl Cymru gyfan wedi cael ei oruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, gyda chynrychiolydd o BIPBC yn arwain ar y darn hwn o waith. Mae ffrydiau gwaith wedi cael eu creu gyda golwg ar ddatblygu cynlluniau i gyflwyno'r Concordat. Mae datblygiadau ers yr adroddiad diwethaf yn cynnwys adolygu a gwella arfaethedig i hyfforddiant Iechyd Meddwl ar gyfer recriwtiaid newydd yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd newydd eu penodi. Credir unwaith y bydd y pecyn hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu ymhellach, y bydd yn addas i'w gyflwyno i garfan ehangach o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd aelodau'r panel yn cofio bod tîm Brysbennu Stryd Wrecsam wedi'i hen sefydlu. Mae Rhingyll Cymunedau Diogelach Wrecsam wedi cymryd drosodd y gwaith o reoli'r tîm yn ddiweddar. Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth ymhlith swyddogion lleol o waith ac amcanion y Peilot Brysbennu Stryd yn fy marn i, ac o ganlyniad wedi arwain at gynnydd yn y galw am y Tîm. Mae dadansoddwr wedi cael ei ddyrannu yn ddiweddar i weithio gydag arweinwyr Brysbennu Stryd, gyda golwg ar ennill gwell dealltwriaeth o effaith y cynllun peilot ar bobl sydd wedi'u nodi fel bod mewn argyfwng iechyd meddwl.

Dros ddeuddeg mis yn ôl, yn dilyn argymhelliad gan y Prif Gwnstabl, lluniwyd cynllun gweithredu amlasiantaeth ac fe gytunwyd arno, i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. O ran gweithredu'r Cynllun, mae'n rhaid i mi gyfaddef bod y diffyg cynnydd a wnaed ers hynny yn siomedig a dweud y lleiaf, ac rwy'n gorfod cwestiynu ymrwymiad ein partneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai Aelodau'r Panel, yn rhinwedd eu swydd fel aelodau etholedig, yn cwestiynu rôl eu hawdurdod lleol ac a yw'r cyfan y gellir ei wneud, wedi cael ei wneud, i ddiogelu ein plant a'n haelodau mwyaf bregus yn y gymdeithas.

Mae hyfforddiant Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant bellach wedi cael ei ddarparu ar draws Gogledd Cymru i staff o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Cafodd yr hyfforddiant hwn ei gyflwyno mewn partneriaeth â staff o Gyngor Sir Ddinbych a Barnardo's.

Ar ôl ymgynghori â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae staff o'r tîm Onyx (Tîm Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yr Heddlu) wedi ymrwymo i gyflawni nifer o sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer dros 250 o staff rheng flaen o Wasanaethau Rheoleiddio'r awdurdod. Nod y sesiynau hyn yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac amlygu'r rôl y gall staff yr awdurdod lleol ei chwarae wrth fynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Yn ogystal, mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda Phrosiect Gwella (Barnardo's) i gomisiynu cynhyrchiad drama yn tynnu sylw at y peryglon i blant o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Bydd y cynhyrchiad yn cael ei anelu at blant oedran ysgol uwchradd (blynyddoedd 7 ac 8).

Ar ddydd Mawrth 22 Tachwedd, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Ann Griffith, oedd y prif siaradwr mewn cynhadledd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a drefnwyd gan Barnado's.


## Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd

*I ddwyn yr heddlu i gyfrif o ran yr amcan hwn, byddaf yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*


- Lefel cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
- Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
- Lefel y troseddau a ddatrysir, yn ôl math
- Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd
- Lefel byrgleriaeth ddomestig
- Nifer y Swyddogion Heddlu, gwirfoddolwyr a chadetiaid rhan amser

Nid yw'r mesurau hyn yn dargedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod yn cael ei defnyddio yn fy ngwaith craffu ar yr amcanion penodol hyn.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y Prif Gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a gofnodwyd a throseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodir bob 3 mis ers mis Ebrill 2010.




Ffigur 1: Yr holl droseddau a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Hydref 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)





Ffigwr 2: Troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Hydref 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Dywedodd y Prif Swyddogion wrthyf yn y cyfarfod SEB diweddaraf ym mis Tachwedd, yn dilyn y lefel gymharol uchel o droseddau a gofnodwyd yn ystod cyfnod gwyliau'r haf, wrth i ni fynd i mewn i'r hydref, bod gostyngiad nodedig yn y troseddau a gofnodwyd, yn enwedig yn ardal y Gorllewin.

Roedd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd wedi codi 7.7% erbyn wythnos 26 (diwedd mis Medi). Roedd hyn yn cynrychioli 20,889 o droseddau'r flwyddyn hyd yma, o'i gymharu â 19,392 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Yn weithredol, mae'r ffocws yn parhau ar droseddau byrgleriaeth yn y cartref a thrais.

**Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol:**




Ffigwr 2: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Hydref 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Ers diwedd cyfnod uchel yr haf, mae nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng ychydig yn yr wythnosau diwethaf, a'r lefelau bellach yn gyson â rhai o'r un amser y llynedd.

Yn y flwyddyn hyd yma cafwyd 12,545 o achosion a gofnodwyd o ymddygiad gwrthgymdeithasol, o'i gymharu â 11,531 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Mae'r arolwg Bodlonrwydd Defnyddwyr ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dangos gwell boddhad.

## Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol

Y pedwar mesur o'r amcan hwn fel y nodir ar gyfer cynllun 2016/17 yw:

- Amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau heddlu
- Galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi'u gadael'
- Targed arbedion 2016/17 yn cael ei gyflawni
- Yr adborth o arolygon dioddefwyr, yn enwedig lefelau boddhad

Mae'r amser ymateb ar gyfartaledd yn parhau i fod yn sefydlog ar 17.7 munud a bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gafodd adnoddau fel ymateb ar unwaith.

Mae niferoedd sgwrsio ar y we unwaith eto yn dangos cynnydd ac mae gwaith yn parhau gyda'r Gwasanaeth Tân i sefydlu system sgwrsio ar y we ar y cyd.

Mae trafodaethau hefyd yn parhau â Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru ac Uned Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn, gyda golwg ar allu trosglwyddo galwadau priodol rhwng asiantaethau.

Mae'r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch tua 4.2%, sy'n welliant ar y 4.5% a adroddwyd i'r Panel yn Hydref 2016.

Byddaf yn parhau i fonitro cyfradd galwadau sy'n cael eu gadael ond rwy'n credu'n gryf na all llwyddiant system 101 gael ei fesur gan y cyflymder y mae'r galwadau'n cael eu hateb yn unig, ond hefyd ar effeithiolrwydd y cyswllt cychwynnol, yn enwedig adnabod pa mor ddiamddiffyn yw rhywun.

## Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed

*Mae gan y cynllun ar gyfer 2016/17 bedwar mesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr Heddlu o ran yr amcan hwn. Sef:*

- Nifer y bobl wedi'u lladd neu wedi'u hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd
- Nifer yr arestiadau o gyflawnwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant
- Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant a erlynwyd
- Nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt

Mae nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) ar ein ffyrdd wedi gostwng 17.9% flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 179 i 147.

Mae gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd sy'n angheuol wedi cynyddu o 11 i 26 yn y flwyddyn adrodd.

Mae nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol oherwydd beiciau modur hefyd wedi lleihau o 20%, o 50 i 44, yn rhannol oherwydd ymateb gweithredol parhaus o dan Ymgyrch Darwen.

Mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant (CSE), cafodd 69 o droseddwyr eu harestio yn ystod y flwyddyn blismona eleni hyd yma (2016/17) a chafodd 148 achos o ddelweddau anweddus o blant eu canfod (sy'n cynrychioli cynnydd o 108.5% y flwyddyn hyd yn hyn).

Bu cynnydd yn nifer staff Tîm Onyx (tîm plismona arbenigol sy'n nodi ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant) gyda phenodiad diweddar Swyddog Cudd-wybodaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Rôl y Swyddog Cudd-wybodaeth yw derbyn a gwerthuso gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol, ac yna i ledaenu gwybodaeth berthnasol i swyddogion gweithredol ac asiantaethau eraill. Bydd y Tîm Onyx yn tyfu ymhellach drwy benodi Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ymuno â'r tîm. Rôl y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fydd ategu at y strwythur presennol drwy ddarparu mewnbynnau addysg a chodi ymwybyddiaeth i asiantaethau partner a grwpiau cymunedol ar draws Gogledd Cymru.

Mae lefelau Troseddau Casineb a adroddwyd yn parhau i fod ychydig yn uwch ar gyfer y flwyddyn, gyda 254 o Droseddau Casineb wedi'u hadrodd, yn erbyn 228 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae ffigurau Troseddau Casineb Anabledd yn dal i ddangos y cynnydd canrannol mwyaf. Mae gwaith yn parhau i ymgysylltu â grwpiau cymunedol i wella cofnodi ac i atal troseddwyr. Er gwaethaf rhywfaint o effaith ar adroddiadau oherwydd Refferendwm Ewrop, mae lefelau Troseddau Casineb yn sefydlog ac yn aros ar y lefel cyn-refferendwm.

## Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i god post.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau mae fy rhagflaenydd a minnau wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

## Cyffuriau

Fe wnaeth fy nghais i gyfreithloni canabis at ddibenion meddyginiaethol gael llawer iawn o sylw yn y cyfryngau, yn lleol a chenedlaethol. Rwy'n hapus iawn gyda lefel y gefnogaeth gyhoeddus a gefais.

Bydd y Panel yn ymwybodol o'r cyfarfod diwethaf fy mod yn gadarn o'r farn mai mater iechyd cyhoeddus yw bod yn gaeth i gyffuriau ac nid mater troseddol, a dylid ei drin felly. Yn hynny o beth rwyf wedi galw am gyflwyno Ystafelloedd Cymryd Heroin ac Ystafelloedd Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yn Wrecsam. Unwaith eto, rwyf wrth fy modd gyda'r gefnogaeth a gefais gan y cyhoedd ac aelodau etholedig o Gyngor Wrecsam.

Mae gan Wrecsam broblem gyda hen nodwyddau. Byddai ystafell cymryd cyffuriau, lle gallent fynd i chwistrellu neu gymryd eu cyffuriau'n ddiogel, yn ymdrin â'r broblem yn gyflym iawn yn fy marn i. Mae angen bod yn arloesol, cynllunio ymlaen llaw a chael yr holl bartneriaid i feddwl, nid dim ond un. Dylem gael ein harwain gan y bwrdd iechyd yn hyn o beth.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

Ers 1 Hydref rwyf wedi cyfarfod â'r canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff o Heddlu Gogledd Cymru):

- Grŵp Cynefin
- Robin Owain o Wicipedia Cymru
- Derbyniad Swper Cymrodorion Prifysgol Glyndŵr
- Cynrychiolwyr o Amethyst, y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- Y Farwnes Helen Newlove, Comisiynydd Dioddefwyr
- Liz Saville-Roberts AS
- Stephen Jones, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Martin Powell a Neil Woods, Transform
- Cynrychiolwyr o'r IPCC
- Dawn Blower, Ymyrraeth Cyfiawnder Adferol
- Phil Hare, Coleg Llandrillo
- Dusty Kennedy, Cyfarwyddwr YJB Cymru
- Nick Albrow, GLlTEM
- Denise Richards, OWL

- Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys (i drafod fformiwla ariannu'r heddlu)

Rwyf hefyd wedi mynychu'r cyfarfodydd canlynol:

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
- Pwyllgor Goruchwylio ar y Cyd y Gogledd Orllewin
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan
- Bwrdd Craffu Adran Safonau Proffesiynol
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint
- Sesiwn Lleoleiddio CJS
- Rhwydwaith Gwrth Fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern
- Cyfarfod Cyffredinol APCC
- Grŵp Sector Uwch Adolygiad Dosbarthiad Grant Craidd yr Heddlu
- Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Lansio Caniad (gwasanaeth newydd a gomisiynwyd gan BIPBC a'r Bwrdd Cynllunio Ardal i wella tegwch o ran darpariaeth gwasanaeth ar draws y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yng Ngogledd Cymru)

Yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rydw i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Hwb i wasanaethau hanfodol ar gyfer camddefnyddwyr cyffuriau a dioddefwyr trais domestig

Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

Lleisiwch eich barn ar blismona lleol

Cynllun newydd i recriwtio swyddogion heddlu yn Ne Gwynedd

Addewid i roi dioddefwyr wrth wraidd cynllun gweithredu

Annog dioddefwyr ymosodiadau rhywiol i ddod ymlaen

Pennaeth newydd yr Heddlu yn anelu at dorri'r cylch ffyrnig o droseddu sy'n mynd o'r tad i'r mab

## Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Ann Griffith

Mae ymrwymiadau'r Dirprwy Gomisiynydd ym mis Hydref wedi cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfod cynrychiolwyr o Ganolfan Merched Gogledd Cymru ac ymweld â'r Ganolfan
- Ymweld â'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- Ymweld â Phrosiect Troseddau Casineb Wrecsam yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
- Mynychu cyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan
- Mynychu Gweithdy Rhanddeiliaid Proffesiynol yn Wrecsam
- Ymweld â'r Ystafell Reoli yn Llanelwy

- Cyfarfod gyda Phennaeth Adran Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru i drafod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg
- Mynychu cyfarfod yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain
- Cyfarfod gyda Liz Saville-Roberts AS, Dafydd Llywelyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Dyfed Powys, a Steffan Lewis AC i drafod plismona a materion cyfiawnder troseddol

## Comisiynu

Rwyf yn parhau i fonitro'r prosiectau / gwasanaethau sydd wedi cael cyllid er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru, a'u bod yn cefnogi darparu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'r holl wasanaethau sydd wedi cael eu comisiynu ar gyfer 2016-17 yn perfformio yn ôl y proffil.

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu canolbwynt comisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Ngogledd Cymru gyda'n partneriaid yn y bwrdd iechyd a'r Bwrdd Cynllunio Ardal.

## Ymgynghori

Rwyf ar hyn o bryd yn y broses o ymgynghori ar fy nghynllun heddlu a throsedd, sy'n cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar draws gogledd Cymru. Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd aelodau'r Panel yn cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn

Hwn fydd fy nghynllun cyntaf ers i mi gael fy ethol ym mis Mai. Bydd y cynllun yn adlewyrchu'r heriau a'r bygythiadau sy'n wynebu Heddlu Gogledd Cymru. Rwyf hefyd am sicrhau, lle bo modd, bod y cynllun yn adlewyrchu beth sy'n bwysig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru, dioddefwyr, ein hasiantaethau statudol, y sector gwirfoddol a'r gymuned fusnes.

Mae Heddlu Gogledd Cymru eisoes wedi gwneud £24.101 miliwn o doriadau yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2016. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd mwy o doriadau yn dilyn, gydag amcangyfrif o £7.379 miliwn o doriadau erbyn 2019/20. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r heddlu newid y ffordd y maent yn gweithio, ac felly mae angen i ni ail-edrych ar ein blaenoriaethau a sut y gellir eu cyflawni.

Bydd pawb sy'n byw neu'n gweithio yng Ngogledd Cymru â barn ar yr hyn a ddylai fod yn flaenoriaeth blismona ar gyfer eu hardal. Mae gwrando ar bobl leol yn un o rannau mwyaf pwysig fy rôl ac mae'n hanfodol bod gan bobl lais go iawn mewn plismona. Dyma’r gwasanaeth heddlu ar gyfer Gogledd Cymru ac nid yw ond yn iawn ac yn briodol bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau i fod ar agor tan 2 Ionawr 2017.

## Diweddariad HMIC

Cynhaliwyd arolygiad PEEL Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi y Gwanwyn rhwng 18 a 21 Gorffennaf ac roedd yn cynnwys y llinynnau o Gyfreithlondeb, Arweinyddiaeth ac Effeithlonrwydd. Cynhaliwyd arolygiad Effeithiolrwydd PEEL yr Hydref rhwng 21 a 25 Tachwedd 2016.

Y llynedd cafodd Heddlu Gogledd Cymru ei raddio fel 'Da' o ran Cyfreithlondeb ac Effeithlonrwydd. Ni chafodd Arweinyddiaeth ei graddio'r llynedd ac ni fydd yn cael ei graddio eto ar gyfer 2016. Cafodd effeithiolrwydd ei graddio fel 'Angen Gwella'

Cafodd canfyddiadau'r Adroddiad drafft ar Gyfreithlondeb ac Effeithlonrwydd eu cyhoeddi ar 3 Tachwedd ac mae'r Prif Gwnstabl wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i drafod y cynnwys, cywirdeb a graddio adroddiad drafft Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb. Bydd cynnydd yn erbyn unrhyw Feysydd i'w Gwella a amlygwyd yn yr Adroddiad yn cael ei fonitro trwy fy nghyfarfodydd Bwrdd Gweithredol Strategol.

Bydd Arolygiad Effeithiolrwydd PEEL Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi'n cyfuno arolygiadau Effeithiolrwydd a Bregusrwydd y llynedd. Bydd yr arolygiad yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ymchwilio troseddau a lleihau aildroseddu
- Diogelu pobl ddiamddiffyn rhag niwed a chefnogi dioddefwyr
- Mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol
- Trefniadau arbenigol a galluoedd arfau tanio i gyflawni cyfrifoldebau cenedlaethol

## Gohebiaeth

Ffigurau Gohebiaeth o 1 Hydref 2016 tan 1 Tachwedd 2016

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | *17* |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 19 |
| Cwynion a gyfeiriwyd at PSD | 4 |
| Materion Staffio | 4 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 118 |

## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Diweddariad ar Gyllideb 2016/17 (ar 30 Medi 2016)**

**Cyfarfod:** **Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 12 Rhagfyr 2016**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Nod y papur hwn yw darparu diweddariad i aelodau'r Panel ynglŷn â'r gyllideb plismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 30 Medi 2016 (mis 6).

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Diweddariad ar Gyllideb 2016/17**

3.1 Cafodd cyllideb net ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ar 25 Ionawr 2016 yn £141.067m. Mae hyn yn cynnwys cyllideb net o £0.741m ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ac £1.166m net ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Ar 30 Medi 2016, cyfanswm y rhagamcan hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £1.082miliwn.

3.2 Disgwylir i wariant fod yn unol yn fras â'r gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o ragamcanion o orwariant a thanwariant. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

- Gweithwyr - rhagwelir tanwariant o £0.425m.
  Dyma effaith net o nifer o ffactorau, y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw cyflog swyddogion yr heddlu (tanwariant a ragwelir o £0.406m) a chyflog staff yr heddlu (tanwariant a ragwelir o £0.353m). Mae hwn yn gyfuniad o swyddi gwag (y bwriedir eu llenwi) ac arbedion o ganlyniad i famolaeth a thâl salwch. Bu cynnydd hefyd mewn ymddeoliadau swyddogion. Mae'r tanwariant yn cael eu gwrthbwyso gan orwariant amcanol mewn taliadau pensiwn uniongyrchol (£0.316m). Mae'r gyllideb ar gyfer taliadau pensiwn uniongyrchol yn seiliedig ar chwe ymddeoliad ar sail afiechyd bob blwyddyn, ac roedd naw yn y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol gyfredol. Felly, mae'r rhagamcaniad wedi cynyddu gwariant tebygol ar achosion pellach yn ystod gweddill y flwyddyn.

- Adeiladau – rhagwelir tanwariant o £0.289m
  Er bod y gyllideb wedi gostwng o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol o gost a defnydd, rhagwelir tanwariant o £0.339m ar gostau ynni.

- Cludiant - rhagwelir tanwariant o £0.394m.

  - Costau Gwasanaethu (rhagwelir tanwariant o £0.193m). Mae rheolaeth weithredol o gontractau gwasanaethu a chynnal a chadw cerbydau yn cyfrannu at y tanwariant hwn a ragwelir.
  - Costau rhedeg (rhagwelir tanwariant o £0.232m). Mae costau disel yn 7.6% yn is na'r adeg hon y llynedd. Fodd bynnag, er bod prisiau olew wedi gostwng, maent yn awr yn codi eto, ac mae'r bunt wedi gwanhau yn sgil refferendwm yr UE. Felly, bydd angen i hyn gael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – rhagwelir gorwariant o £0.274m
  - TG a Chyfathrebu – (rhagwelir tanwariant o £0.115m) – gan weithio gyda'n contractwr TG, bu modd gwneud arbedion pellach, gan gynnwys cost cyflenwadau argraffu ac adolygu trwyddedau llai.
  - Cyflenwadau a gwasanaethau eraill (rhagwelir gorwariant o £0.365m). Mae llawer o hyn yn ymwneud â gwariant a ariennir gan grant, ac felly bydd yn cael ei gyfateb gan gynnydd mewn incwm. Fodd bynnag, bu gwariant sylweddol ar gostau cyfreithiol, patholeg a ffioedd chwilio. Bydd y rhain yn cael eu hariannu o danwariant.

- Arian wrth Gefn
  - Mae'r cyllidebau wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau eraill fel y mae'r anghenion yn cael eu nodi. Mae'r driniaeth yn union yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol.
  - Yn ychwanegol at y cyllidebau wrth gefn y cytunwyd arnynt cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, mae nifer o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi cael eu gwireddu yn gynnar. Mae hyn wedi rhyddhau £1.252m yn 2016/17.
    - Mae'r swm wedi cael ei drosglwyddo i'r gyllideb "Rheoli Newid", a fydd yn cael ei defnyddio i ariannu newidiadau sy'n galluogi effeithlonrwydd neu arbedion yn y dyfodol. Mae prosiectau i'w hariannu yn y modd hwn wedi cael eu nodi, felly mae'r gwariant cysylltiedig yn cael ei ragamcanu yn y gyllideb.
    - Bydd y gyllideb rheoli newid yn cael ei throsglwyddo ymhellach i gyllidebau priodol fel y caiff eitemau unigol o wariant eu nodi.

3.3 Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld incwm ychwanegol o £0.248. Mae oddeutu £0.155m yn ymwneud â gwerthu cerbydau, ac mae'r gweddill yn gorbwyso gwariant ychwanegol.

3.4 Ar hyn o bryd mae rhagamcan taliadau cyfalaf, taliadau wrth gefn (ac eithrio rheoli newid) a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

3.5 Rhoddir crynodeb o’r cyllidebau a’r rhagamcanion isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £’000 | Cyllideb 30 Medi 2016 £’000 | Gwirioneddol 30 Medi 2016 £’000 | Rhagamcan hyd Ddiwedd y Flwyddyn £’000 | Rhagamcan o’r Amrywiant £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 122,370 | 122,274 | 60,083 | 121,849 | (425) |
| Adeiladau | 7,696 | 7,925 | 3,939 | 7,636 | (289) |
| Cludiant | 4,942 | 4,638 | 1,649 | 4,244 | (394) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 19,635 | 19,865 | 10,435 | 20,139 | 274 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,504 | 1,614 | - | 1,614 | - |
| Arian wrth Gefn (gweler uchod) | 800 | 1,652 | - | 1,652 | - |
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,166 | 1,166 | 13 | 1,166 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **158,113** | **159,134** | **76,119** | **158,300** | **(834)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(17,133)** | **(17,836)** | **(6,504)** | **(18,084)** | **(248)** |
| | | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **87** | **(231)** | **-** | **(231)** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **141,067** | **141,067** | **44,507** | **139,985** | **(1,082)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (72,745) | (72,745) | (37,199) | (72,745) | - |
| Praesept | (68,322) | (68,322) | (34,161) | (68,322) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(141,067)** | **(141,067)** | **(71,360)** | **(141,067)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | | **(1,082)** |

3.6 Mae’r uchod yn cynnwys incwm a gwariant yn ymwneud â’r grant Gwasanaethau Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £820,323 wedi cael ei ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £770,469 wedi'i ymrwymo ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys: Canolfan Cymorth Dioddefwyr, IDVA a ISVA.

3.7 Hefyd wedi ei gynnwys uchod mae Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yw £741,000. Ar 30 Medi, roedd y gwariant yn £427,719 a’r alldro a ragwelir yn £791,222. O’r gorwariant a ragwelir, mae £77,506 yn deillio o wariant ar gyngor cyfreithiol, bydd £42,598 yn cael ei ariannu o gronfa a glustnodwyd fel y cynlluniwyd.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2016/17 oedd £17.048m yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gan gymryd i ystyriaeth y llithriant o £3.304m a rhai mân ychwanegiadau a dileadau, mae hyn yn cynyddu i £20.065m posibl, fodd bynnag, bydd peth o'r gwariant hwn bellach yn cael ei wario mewn blynyddoedd i ddod, ac ar ôl ail-broffilio, y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw £16.835m.

4.2 Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen ystadau yn ymwneud â dim ond tri chynllun, sydd wedi'u nodi yn unigol yn y tabl: Llai Wrecsam, Canol Tref Wrecsam a Llandudno:

- Llai Wrecsam: comisiynwyd adroddiad manwl ar gostau i ddadansoddi'r rhesymau dros y cynnydd. O ganlyniad, cytunwyd ar y gyllideb ddiwygiedig ar 15 Gorffennaf 2016, sy'n cynnwys llawer o newidiadau i'r cynlluniau gwreiddiol.
- Canol Tref Wrecsam: mae gwaith yn mynd rhagddo a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.
- Llandudno: Dechreuodd y gwaith ym mis Awst, ac mae i fod i gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2017.
- Mae'r tabl wedi'i adnewyddu i dynnu prosiectau sydd wedi'u cwblhau.

4.3 Cerbydau: mae archebion ar gyfer cerbydau ar fin cael eu gosod rhwng nawr a diwedd mis Tachwedd. Bydd y gwariant a ragwelir yn cael ei adolygu ar y pwynt hwn.

4.4 TG a Chyfathrebu: Mae nifer o brosiectau mawr yn y camau olaf o'u cynllunio ac ymgynghori, gyda'r mwyafrif o'r gwariant yn cael ei ddisgwyl yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol hon.

4.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf a'r rhagamcanion isod.

| Cynllun | Gwariant wedi'i gario drosodd<br>£'000 | Cyllideb 2016/17 (ailbroffiliwyd)<br>£'000 | Gwariant 2016/17<br>£'000 | Cyllideb - Blynyddoedd i ddod<br>£'000 | Cyfanswm cyllideb<br>£'000 | Gwariant hyd at 30.09.16<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster newydd Llai Wrecsam | 2,894 | 2,500 | 235 | 15,754 | 21,148 | 3,129 |
| Cyfleuster canol tref Wrecsam | 50 | 400 | 13 | 1,350 | 1,800 | 63 |
| Adeilad newydd Llandudno | 463 | 1,150 | 0 | 1,137 | 2,750 | 463 |
| Ystadau eraill | 1,919 | 862 | 51 | 561 | 3,342 | 1,970 |
| Cerbydau ac offer | 5,045 | 1,839 | 231 | 4,665 | 11,549 | 5,276 |
| TG a Chyfathrebu | 2,301 | 3,498 | 1,128 | 4,581 | 10,380 | 3,349 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **12,672** | **10,249** | **1,658** | **28,048** | **50,969** | **14,330** |

## 5. Cyllideb 2017-2018 a thu hwnt

5.1 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymgynghori ar gynnwys ei Gynllun Heddlu a Throsedd, a bydd y gyllideb ar gyfer 2017-2018 ymlaen yn adlewyrchu ei flaenoriaethau.

5.2 Derbynnir cyfran sylweddol o incwm Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd drwy'r praesept, bydd adroddiad praesept yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd ar 23 Ionawr 2017.

## 6 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Atebolrwydd | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf fel ag y mae ddiwedd Medi 2016.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL



| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **23 Ion 2017** | **Cyllideb ac Adroddiad Gosod Praesept 2016/17**<br>Ystyried praesept arfaethedig ar gyfer 2017/18 | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **23 Ion 2017** | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig**<br>Nod y papur hwn yw rhoi manylion ynghylch sut mae'r gyllideb wedi'i chydbwyso hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer cydbwyso’r blynyddoedd i ddod wrth gynnal perfformiad a sicrhau fod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (OPCC) |
| **23 Ion 2017**<br>**13 Mawrth 2017** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd**<br>Cynllun yr Heddlu a throsed Gogledd Cymru | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **13 Mawrth 2017** | **Amserlen Gyfarfod ar gyfer 2016/17** | Awdurdod Cynnal |
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd**<br>Sicrhau y bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy’n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru. | Awdurdod Cynnal |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu’r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben. | Awdurdod Cynnal |